Cwis

1. Beth ydych chi'n galw pobl sydd â chyfrif gydag Undeb Credyd?	
Aelodau	Ie, da iawn. Wrth gwrs, maen nhw'n gwsmeriaid hefyd a gallan nhw fod yn Gyfarwyddwyr pe bydden nhw'n cael eu hethol.
Cwsmeriaid	Efallai y dylech chi wylio fideo 1 eto neu ddarllen 'Dweud eich Dweud'.
Cyfarwyddwyr	Efallai y dylech chi wylio fideo 1 eto neu ddarllen 'Dweud eich Dweud'.
2. Mae pobl sy'n defnyddio Undebau Credyd fel arfer yn byw, gweithio, astudio neu wirfoddoli yn yr un ardal. Beth ydy'r enw ar hynny?	
Cwlwm Cyffredin	Mais oui!
Tir Cyffredin	Oeddech chi'n cysgu? Gwyliwch Fideo 1 eto.
Pobl gyffredin	Oeddech chi'n cysgu? Gwyliwch Fideo 1 eto.
3. Beth ydych chi'n galw'r swm o arian sy'n gallu cael ei dalu'n ôl i aelodau Undeb Credyd?	
Buddran	Ta da! Ie, os oes arian ar ôl, gall aelodau bleidleisio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i dalu buddran.
Bonws	Na, mae hwn yn fwy na cherdyn ffyddlondeb. Edrychwch ar fideo 1 eto neu darllenwch 'Sut mae'n gweithio?'
Pwyntiau	Na, mae hwn yn fwy na cherdyn ffyddlondeb. Edrychwch ar fideo 1 eto neu darllenwch 'Sut mae'n gweithio?'

Cwis

4. Os ydych chi'n aelod o Undeb Credyd rydych chi'n cael pleidleisio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (yn 16 neu'n 18 oed, yn dibynnu ar eich Undeb Credyd). Pa un o'r canlynol sy'n wir?	
Rydych chi'n cael pleidlais ac yn gallu ethol y bwrdd.	Ie dyna ni – mae busnesau cydweithredol i gyd yn gweithredu ar sail 'un person un bleidlais' – waeth pa mor fawr yw eich buddsoddiad neu'ch dylanwad.
Fe gewch chi fwy o bleidleisiau yn dibynnu ar faint rydych chi wedi'i fuddsoddi.	Wps! Cofiwch – dim bosys mawr barus! Gwyliwch fideo 1 eto neu darllenwch 'Dweud eich Dweud'.
Chewch chi ddim mynegi barn ar sut mae pethau'n cael eu rhedeg.	Wps! Cofiwch – dim bosys mawr barus! Gwyliwch fideo 1 eto neu darllenwch 'Dweud eich Dweud'.
5. Beth yw Benthyg Cyfrifol?	
Rhoi benthyg i bobl ar gyfraddau llog fforddiadwy, gan wneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r gallu i dalu'n ôl.	Gwych! Blaenoriaeth yr Undeb Credyd yw edrych ar ôl arian yr aelodau.
Rhoi benthyg i bobl ar gyfraddau uchel iawn hyd yn oed pan maen nhw'n desbret.	Iaics, mae'r siarcod yn dod! Na, mae Undebau Credyd yn edrych ar ôl arian eu haelodau. Gwyliwch fideo 2 eto.
Os yw pobl yn cael problem talu eu benthyciad yn ôl, eu problem nhw yw hynny.	Iaics, mae'r siarcod yn dod! Mae Undebau Credyd yn edrych ar ôl arian eu haelodau. Gwyliwch fideo 2 eto.
6. Sut llwyddodd y bobl ifanc i gynilo am eu trip?	
Cynilo symiau bach yn rheolaidd	Da iawn – fe lwyddon nhw i gynilo dros £100 drwy gynilo symiau bach bob wythnos.
Gwneud buddsoddiad mawr ac ennill llog arno.	Na – mae'n golygu rhoi ychydig bach o arian o'r neilltu i gynilo am rywbeth rydych chi eisiau. Gwyliwch fideo 3 eto.
Benthyg arian gan eu Mam-gu.	Na – mae'n golygu rhoi ychydig bach o arian o'r neilltu i gynilo am rywbeth rydych chi eisiau. Gwyliwch fideo 3 eto.

Cwis

7. Beth oedd y pethau cyntaf oedd yn rhaid i'r tîm eu gwneud er mwyn sefydlu pwynt casglu yn yr ysgol?	
Hyrwyddo a chael hyd i wirfoddolwyr.	Dyna ni, bydd angen tîm o wirfoddolwyr arnoch chi i helpu a bydd angen i chi gytuno ar gynllun ar gyfer beth i'w wneud.
Llungopïo a pharatoi parti lansio.	Na! Bydd angen deunyddiau hyrwyddo arnoch chi ond sut allwch chi redeg hwn heb help? Darllenwch 'Sut i sefydlu pwynt casglu yn eich ysgol.'
Dylunio crysau-t a phaslyfrau.	Na! Bydd angen deunyddiau hyrwyddo arnoch chi ond sut allwch chi redeg hwn heb help? Darllenwch 'Sut i sefydlu pwynt casglu yn eich ysgol.'
8. Gwaith pwy yw mynd ar ôl benthycwyr sy'n hwyr yn talu'n ôl?	
Swyddog Rheoli Credyd	Ie – hei 'chi'n dda ar hyn!
Aelodau'r Bwrdd	Siŵr? Ewch i ddarllen Swydd-ddisgrifiadau staff yr Undeb Credyd.
Derbynnydd Arian	Siŵr? Ewch i ddarllen Swydd-ddisgrifiadau staff yr Undeb Credyd.
9. Tua faint o Undebau Credyd sy'n bodoli o gwmpas y byd?	
	Cywir – gyda'i gilydd, mae ganddyn nhw tua chant saith deg saith miliwn (177,000,000) o aelodau. Gall Undebau Credyd helpu pobl na fyddai ganddyn nhw ffordd arall o gael gwasanaethau ariannol. Er enghraifft, pobl mewn ardaloedd anghysbell heb fanciau lleol mewn gwledydd sy'n datblygu.
	Dewch 'mlaen! Pa mor fawr ydych chi'n meddwl ydyn ni? Ewch i ddarllen mwy am Undebau Credyd o gwmpas y byd.
	Dewch 'mlaen! Pa mor fawr ydych chi'n meddwl ydyn ni? Ewch i ddarllen mwy am Undebau Credyd o gwmpas y byd.

10. Cafodd Mrs Pwyll fenthyciad gan ei Hundeb Credyd lleol. Talodd £19.32 mewn llog ar fenthyciad o £300 a dalodd yn ôl dros 36 wythnos. Beth oedd y gyfradd llog ar y benthyciad?	
19.6% APR (cyfradd ganrannol flynyddol)	Da iawn.
189.2% APR (cyfradd ganrannol flynyddol)	Na, trïwch eto neu edrychwch ar y Siart Cymharu Benthyciadau.
5% APR (cyfradd ganrannol flynyddol)	Na, trïwch eto neu edrychwch ar y Siart Cymharu Benthyciadau.

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!